OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 990 (Cy.139)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd) (Gwrth-hysbysiadau) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *2 Ebrill 2003* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 99(6)(b) o Ddeddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**1**), sydd bellach wedi eu breinio ynddo i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enw, cychwyn a chymhwyso

**1.** —Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd) (Gwrth-hysbysiadau) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 10 Ebrill 2003.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Dehongli

**3.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1993" ("*the 1993 Act*") yw Deddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993;

mae i "y tir a'r adeiladau penodol" ("*the specified premises*") yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "*the specified premises*" yn adran 13(12)(a) o Ddeddf 1993.

### Cynnwys ychwanegol gwrth-hysbysiad ôl-feddiannydd

**4.** Rhaid i wrth-hysbysiad a roddir o dan adran 21 (Gwrth-hysbysiad ôl-feddiannydd) o Ddeddf 1993 gynnwys (yn ogystal â'r manylion sy'n ofynnol o dan yr adran honno) ddatganiad ynghylch a yw'r tir a'r adeiladau penodol o fewn ardal cynllun a gymeradwywyd fel cynllun rheoli ystâd o dan adran 70 o Ddeddf 1993.

(**1**) 1993 p.28.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

**Cymhwyso**

**5.** Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i wrth-hysbysiadau a roddir o dan adran 21 o Ddeddf 1993 ar, neu ar ôl, y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

2 Ebrill 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Rhaid i berson sy'n cael hysbysiad o gais am ryddfraint ar y cyd sydd wedi ei wneud o dan Ran I o Ddeddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 ("Deddf 1993") ymateb drwy roi gwrth-hysbysiad yn derbyn neu yn gwrthod y cais. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gofyniad, yn ychwanegol at y rhai a bennir yn adran 21 o Ddeddf 1993, ynglŷn â chynnwys y gwrth-hysbysiad.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys ond i wrth-hysbysiadau a roddir ar, neu ar ôl, y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.